

# Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

## Adrannau 1 ac

<b>Teitl y cynnig:</b>	<b>Cyflwyno rhaglenni brechu arferol brech M a gonorea.</b>
<b>Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Asesiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):</b>	<b>Rachael Jones / Sharron Richards Y Tîm Polisi Brechu</b>
<b>Adran:</b>	<b>Brechu</b>
<b>Pennaeth yr Is-adran/Uwch-Swyddog Cyfrifol (enw):</b>	<b>Tania Nicholson</b>
<b>Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog Cyfrifol:</b>	<b>Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol</b>
<b>Dyddiad Cychwyn:</b>	<b>Chwefror 2024</b>

## CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?.....	3
Adran 8. Casgliad .....	9

## Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae dau fater ar wahân ond cysylltiedig sydd wedi sbarduno Llywodraeth Cymru i gymryd camau i sefydlu rhaglenni brechu arferol newydd ar gyfer mynd i'r afael â brech M a gonorea.

Mae **brech M** yn glefyd prin a achosir gan haint â'r feirws brech M. Mae'r feirws yn gysylltiedig â'r rhai sy'n achosi'r frech wen a brech y fuwch ond yn wahanol iddynt. Mae'r rhan fwyaf o unigolion yn profi salwch ysgafn, gydag adferiad digymell a chyflawn o fewn 3 wythnos. Er hynny, gall salwch difrifol ddigwydd sydd weithiau'n arwain at farwolaeth. Mae'r risg o ganlyniadau difrifol o glefyd yn uwch ymhlith plant ifanc, menywod beichiog ac unigolion imiwnoataliedig. Yn dilyn achosion o frech M yn y Gwanwyn 2022, datblygwyd rhaglen frechu eang mewn ymateb i frigiad o achosion ledled y DU, a oedd wedi'i thargedu at unigolion sydd fwyaf mewn perygl o haint brech M - yn bennaf dynion hoyw, deurywiol a dynion eraill sy'n cael rhyw gyda dynion (GBMSM). Ar wahân i rywfaint o weithgarwch wedi'i dargedu yn Llundain a Manceinion, daeth y cynnig brechu adweithiol hwn i ben yn Lloegr yn haf 2023. Er hynny, yng Nghymru mae'r cynnig hwnnw wedi parhau hyd heddiw, gan weithredu ar sail manteisio ar y cyfle o ran adnabod a brechu.

Mae dau gytras hysbys o frech M: cytras I a chytras II. Mae'r clefyd, sydd wedi bod yn endemig mewn rhai gwledydd ledled y byd ers 2022, wedi bod yn gysylltiedig â heintiau â chytras II. Ym mis Tachwedd 2023, adroddodd Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) bryderon am ledaeniad pellach o frech M yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (DRC), ac ym mis Awst, penderfynodd fod yr ymchwydd o frech M cytras I yn y DRC a nifer cynyddol o wledydd yn Affrica yn argyfwng iechyd cyhoeddus o bryder rhyngwladol (PHEIC). Gall cytras mwy ffyrnig o'r feirws, haint â chytras I arwain at risg uwch o salwch difrifol. Mae asiantaethau iechyd cyhoeddus pedair gwlad y DU yn cynnwys cytras brech M cytras I yn eu rhestr o glefyd heintus â chanlyniadau pellgyrhaeddol. Mae asesiad risg Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi bod risg sylweddol y gallai brech M ledaenu ymhellach i wledydd cyfagos a ledled y byd, gyda chanlyniadau mwy difrifol na'r brigiad byd-eang presennol o achosion.

Mae **gonorea** yn haint bacterol a drosglwyddir yn rhywiol (STI) a achosir gan y bacteriwm *Neisseria gonorrhoeae*. Mae'n achosi morbidrwydd sylweddol ac mae'n dal yn bryder iechyd cyhoeddus yn fyd-eang. Mae haint yn cael ei drosglwyddo drwy ryw drwy'r wain, rhyw geneuol neu ryw yr anws heb gondom, neu gyswllt drwy'r organau cenhedlu â phartner heintiedig ac fe allai arwain at gymhlethdodau gan gynnwys poen pelfig cronig, clefyd llidiol y pelfis, beichiogrwydd ectopig ac anffrwythlondeb mewn menywod. Hyd yn oed os nad oes gan berson heintiedig unrhyw symptomau, mae'r haint yn gallu cael ei drosglwyddo o hyd.

Mae data Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod cynnydd o 127% mewn diagnosisu o gonorea yng Nghymru yn 2022 o'i gymharu â 2021. Mae data 2023 yn

dangos bod diagnosisu o gonorea ar eu lefel uchaf ers 10 mlynedd gyda chynnydd o 27% mewn achosion ers 2022, gan gyrraedd 5,292 o ddiagnosisau. Mae'r mwyafrif o achosion yn wrywod ac yn y grŵp oedran 15-24. Mae adroddiadau o'r Rhaglen Wyliadwriaeth Ymwrthedd Gonococol i Gyffuriau Gwrthficrobaidd (GRASP) yng Nghymru a Lloegr yn dangos bod gonorea wedi datblygu ymwrthedd i bob dosbarth o wrthfotigau a ddefnyddir i'w drin; felly, mae angen dod o hyd i fesurau atal amgen. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw frechiad yng Nghymru i amddiffyn rhag gonorea.

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi argymhell [rhaglen frechu arferol wedi'i thargedu ar gyfer atal gonorea](#), ochr yn ochr â chynghori ar [raglen frechu arferol rhag brech M](#) i'r rhai sydd â'r risg uchaf. Mae'r Pwyllgor yn cynghori y dylid cynnig y ddwy raglen a hynny ar sail manteisio ar y cyfle drwy wasanaethau iechyd rhywiol arbenigol, sydd â'r profiad o asesu ac adnabod y rhai sydd mewn mwy o berygl o gael eu heintio â heintiau bacterol a drosglwyddir yn rhywiol (STIs).

Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r pedair gwlad arall, yn cynnig cyflwyno rhaglenni brechu ar wahân ar gyfer brech M a gonorea o wanwyn 2025, a gyflwynir ar sail manteisio ar y cyfle drwy Wasanaethau Iechyd Rhywiol.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phedwar o'r nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) sef:

- Cymru fwy llewyrchus - mae poblogaeth sydd â lefel brechu uchel yn iachach, sydd yn ei dro yn arwain at gyflogaeth uwch a mwy o gynhyrchiant.
- Cymru iachach - drwy gyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol pobl.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – lle mae plant iachach yn mynd ymlaen i gyrraedd eu potensial waeth beth fo'u cefndir/amgylchiadau.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang - lle mae brechu yn allweddol i ddiogelwch iechyd byd-eang, mewn byd cydgysylltiedig lle gall achosion o glefyd ledaenu'n gyflym iawn. Gall gwlad sydd â lefelau brechu uchel ymateb yn well i frigiadau o achosion ac argyfyngau iechyd cyhoeddus.

O ran y pum ffordd o weithio, mae'r polisi hwn yn ystyried:

### **Y tymor hir**

- Byddai'r rhaglenni brechu hyn yn cyfyngu ar y gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol ymhlith y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu a bydd yn lleihau effaith brech M a gonorea ar wasanaethau iechyd cyhoeddus, yn benodol gwasanaethau iechyd rhywiol, yn 2025 a'r tu hwnt.
- Mae rhaglenni brechu yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r afiechydon a'r marwolaethau cysylltiedig o glefydau heintus bellach yn

penderfynu cyfleoedd bywyd rhywun. Mae gan y rhai sy'n cael eu brechu y cyfle i gael ansawdd bywyd a disgwyliad oes gwell.

## **Atal**

- Brechu yw un o'r camau pwysicaf y gallwn eu cymryd ar gyfer ein hiechyd ein hunain, ac mae'n un o'r mesurau ataliol pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru. Prif nod cyflwyno'r ddwy raglen hyn yw cynnig amddiffyniad i unigolion rhag salwch difrifol rhag mpox a gonorea, yn benodol mynd i'r ysbyty a marwolaeth, ac atal achosion yn y dyfodol, gan amddiffyn y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddod i gysylltiad.

## **Integreiddio**

- Mae effaith y rhaglenni hyn ar raglenni brechu arferol eraill yn 2025 a'u hintegreiddio â hwy yn cael ei hystyried yn llawn. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Rhaglen Frechu Cymru (VPW) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn lleihau unrhyw darfu ar ddarpariaeth y GIG a gwaith ehangach gwasanaethau iechyd rhywiol. Mae rheolwyr prosiect VPW wedi bod yn gweithio i werthuso opsiynau i gynllunio ar gyfer cyflwyno'r rhaglen yn effeithlon ac yn effeithiol yng Nghymru.

## **Cydweithio**

- Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio â VPW ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth gynllunio'r gwaith o weithredu'r rhaglenni brechu hyn drwy gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd. Mae swyddogion polisi yn parhau i ymgysylltu â'r timau Iechyd Rhywiol a Chydraddoldeb ar agweddau ar gyflwyno'r rhaglenni a'r ffordd orau o hysbysu'r rhai sy'n gymwys i gael eu brechu, er mwyn sicrhau'r cyfraddau brechu gorau posibl.

## **Cyfranogiad**

- Gofynnwyd i randdeiliaid perthnasol (elusennau iechyd rhywiol LHDTTC+ ac Arweinyddion Clinigol y Byrddau Iechyd) am eu barn er mwyn llywio'r asesiad effaith integredig hwn a byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r polisi ddatblygu. Daeth adborth i law oddi wrth arweinyddion clinigol sy'n cysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau. Gan fod gwasanaethau iechyd rhywiol yn wasanaeth cyfrinachol, bydd yr adborth yn ymwneud ag ystod o gefndiroedd/oeddrannau, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae ceisio adborth wedi'i dargedu i ddeall barn rhai grwpiau o bobl sy'n gymwys – megis pobl ifanc a allai ddefnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol – yn her oherwydd sensitifrwydd trafod

iechyd rhywiol, rhywioldeb a natur gyfrinachol y gwasanaeth hwn, a dyna pam yr ymgynghorwyd â chyrrff cynrychioliadol. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio mewnwleidiadau'r grwpiau rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy, sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau, i lywio penderfyniadau ar sut y mae rhaglenni o'r fath yn cael eu cynnal yng Nghymru.

## **Effaith**

Cadarnhaol –

- Diben sefydlu'r ddwy raglen frechu (fel pob brechiad) yw ei gael fel mesur ataliol i amddiffyn rhag brech M a gonorea – gyda'r nod o gadw unigolion yn ddiogel rhag afiechyd difrifol, cyfnodau yn yr ysbyty a marwolaeth., ac i gyfyngu ar drosglwyddiad o fewn cymunedau, gan atal brigiadau o achosion yn y dyfodol.
- Byddai'r rhaglenni brechu'n cyfyngu ar y gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol ymhlith y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu a bydd yn lleihau effaith brech M a gonorea ar wasanaethau iechyd cyhoeddus.
- Potensial i ddysgu o raglen frechu Covid-19, a gafodd ei chynnal yn gyflym mewn ymateb i'r pandemig, er mwyn llywio'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen. Byddai disgwyl i fyrddau iechyd rannu arloesedd, dysgu ac arferion gorau gyda'i gilydd, er mwyn gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth a chynyddu'r nifer sy'n derbyn brechiad, yn unol â'r Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol.
- Mae'r brechlyn y cynghorir ei ddefnyddio ar gyfer atal gonorea (MenB) eisoes yn cael ei roi i blant ifanc fel rhan o'r amserlen brechu yn ystod plentyndod. Nid yw hyn yn cyflwyno unrhyw broblemau trwyddedu na diogelwch gan fod y brechlyn yn cael ei ddefnyddio fel mater o drefn gan y GIG. I'r rhan fwyaf o bobl, bydd y rhaglen hon yn darparu dosau ychwanegol o frechlyn y maent eisoes wedi'i gael pan oeddent yn fabanod.
- Gan y byddai angen asesiadau risg manwl ar dderbynwyr y ddau frechlyn i sicrhau eu haddasrwydd clinigol, byddai sgysiau pellach â chydweithwyr iechyd rhywiol sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, sy'n ychwanegu cyfle ychwanegol ar gyfer addysg ac ymwybyddiaeth am faterion eraill sy'n ymwneud ag iechyd rhywiol.
- Ar hyn o bryd mae clinigau iechyd rhywiol galw heibio i bobl ifanc wedi'u sefydlu o fewn byrddau iechyd sy'n rhedeg gwasanaethau iechyd rhywiol. Dylai darparu cyllid ychwanegol i ymgymryd â'r rhaglenni newydd hyn sicrhau bod gwasanaeth iechyd rhywiol mwy gwydn yn cael ei gynnal.

Negyddol

- Mae risg o ran derbynioldeb y brechiad a'r nifer fydd yn manteisio arno. Mae stigma ynghlwm wrth heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a allai effeithio ar nifer y bobl sy'n mynychu gwasanaethau iechyd rhywiol.
- Mae'r ddwy raglen frechu yn cael eu darparu trwy Wasanaethau Iechyd Rhywiol, a allai gael effaith negyddol ar eu gallu a'u gallu i ddarparu gwasanaethau arferol eraill. Mewn tystiolaeth a ystyriwyd gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) nodwyd bod yr ymateb i'r brigiad o achosion o frech M wedi achosi tarfu sylweddol ar wasanaethau iechyd rhywiol, gan effeithio ar eu gallu i barhau â'u gwaith arferol. Er y disgwylir y bydd rhaglen brech M arferol yn cael llai o effaith na'r ymateb i'r brigiad o achosion, dylai darparu arian ychwanegol i gefnogi'r rhaglenni leihau'r tarfu posibl hwn.

### **Costau ac Arbedion**

- Adolygodd Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth (SEA) Llywodraeth Cymru y gwaith modelu o effaith a chost-effeithiolrwydd rhaglen frechu brech M a gynhaliwyd gan UKHSA a Phrifysgol Bryste. Daeth SEA i'r casgliad bod parhau i frechu GBMSM risg uchel yn gosteffeithiol yng Nghymru, gyda strategaeth arferol yn debygol o fod yn fwy effeithlon a chosteffeithiol nag un adweithiol. Adolygodd SEA dystiolaeth hefyd a gyflwynwyd i'r JCVI a modelu a gynhaliwyd gan Goleg Imperial Llundain ar gost-effeithiolrwydd brechu ar gyfer gonorea, a ganfu fod gwerth brechu wedi cynyddu dros amser, gan fod nifer yr achosion a osgowyd yn cronni.
- Ystyriodd y modelu hefyd yr arbedion cost ehangach, ochr yn ochr â'r buddion iechyd i unigolion, o ran y budd y gall rhaglenni brechu eu darparu i fusnesau drwy gyfyngu ar effaith economaidd colledion cynhyrchiant ac absenoliaeth.

### **Mecanwaith**

- Nid oes angen deddfwriaeth newydd i gyflwyno'r rhaglenni brechu hyn yng Nghymru.
- Cyhoeddwyd y [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol](#) ym mis Hydref 2022 ac mae'n nodi ein cynlluniau i drawsnewid y ddarpariaeth o wasanaethau brechu i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol. Mae rhan o hyn yn cynnwys helpu pobl i gael gwybod am y brechiadau y maent yn gymwys i'w cael a sut i'w cael.
- GIG Cymru fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglenni hyn, gyda byrddau iechyd yng Nghymru yn datblygu cynlluniau lleol ac yn asesu effaith y cynlluniau hyn.
- Bydd sefydlu rhaglenni brechu brech M a gonorea yn cael ei gyfleu ar yr adeg briodol i'r GIG drwy rifyn o Gylchlythyr Iechyd Cymru a bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi i hysbysu Aelodau o'r Senedd.

- Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llunio strategaeth gyfathrebu sydd wedi'i thargeddu at y carfannau cymwys er mwyn codi ymwybyddiaeth o frech M, rhoi gwybod i unigolion cymwys am fanteision cael y brechlyn a sut y gallant gael eu brechu.
- Byddai'r strategaeth gyfathrebu hon yn datblygu ystod o ddeunyddiau sy'n addas ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, er enghraifft, oedolion iau o dan 18 oed, y deallir eu bod yn cael mynediad at wasanaethau iechyd rhywiol.

## Adran 8. Casgliad

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) wedi argymhell rhaglen frechu arferol wedi'i thargedu ar gyfer atal gonorea, ochr yn ochr â chynghori ar raglen frechu arferol yn erbyn brech M i'r rhai sydd â'r risg uchaf.

Cyngor JCVI yw y dylai'r ddwy raglen dargedu GBMSM yn bennaf sydd mewn mwy o berygl o gael eu heintio, er bod y cyngor yn benodol wrth nodi y dylid gwneud ymdrechion i sicrhau bod y brechlyn yn cael ei gynnig i'r rhai sy'n wynebu risg debyg i GBMSM, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fenywod trawsryweddol, pobl rywedd-amrywiol a gafodd eu pennu'n yn wrywod adeg eu geni, ac (ar gyfer gonorea) unrhyw bobl eraill, waeth beth fo'u rhywedd, a allai fod yn heterorywiol neu sy'n uniaethu fel arall ac sydd â marcwyr cyfatebol o risg uwch.

Wrth ddatblygu'r polisiau brechu hyn, ceisiwyd barn rhanddeiliaid perthnasol a chynrychiolwyr o'r carfanau a dargedwyd, sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys arweinwyr clinigol Iechyd Rhywiol y byrddau iechyd, Cymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain (BASHH), Ymddiriedolaeth Terrence Higgins (THT) Cymru a Fast Track Cymru (FTC). Mae eu mewnwelediadau wedi helpu i lywio'r asesiad effaith hwn ac os caiff y rhaglenni eu rhoi ar waith, bydd y rhanddeiliaid hyn yn parhau i fod yn rhan o hyrwyddo'r brechiadau a'r cynnig cyffredinol o wasanaethau iechyd rhywiol.

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector amrywiol i gael darlun ymddygiadol o'r rhwystrau, canfyddiadau a phrofiadau mewn perthynas â rhaglenni brechu yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn defnyddio gwahanol offerynnau a dulliau i ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau i lywio strategaethau cenedlaethol a gwelliannau i wasanaethau a dylanwadu arnynt. Y nod yw mynd ati i gynnwys gwahanol garfannau o'r cyhoedd, fel grwpiau ethnig lleiafrifol<sup>1</sup> wrth ddatblygu adnoddau ac ymyriadau, gyda'r nod o lywio a meithrin ymddiriedaeth. Os caiff y rhaglenni eu gweithredu, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bwriadu datblygu cynllun cyfathrebu cynhwysfawr a phecyn cymorth i'r cyfryngau cymdeithasol i annog unigolion i ofyn am frechiad. Bydd modd rhannu'r cynllun cyfathrebu cynhwysfawr a'r pecyn cymorth â rhwydweithiau a sefydliadau GBMSM, a thrwy sianeli iechyd rhywiol lleol y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â deunyddiau i roi cyhoeddusrwydd am y rhaglenni i grwpiau penodol, mewn digwyddiadau gan gynnwys Pride.

---

<sup>1</sup> [phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/engagement-insights/evaluation-of-information-resources-ethnic-minorities-summary-report-2023/](https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/engagement-insights/evaluation-of-information-resources-ethnic-minorities-summary-report-2023/)

## **8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn rhai cadarnhaol a negyddol?**

Byddai gweithredu'r rhaglenni brechu brech M a gonorea yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion y bernir eu bod fwyaf mewn perygl, drwy gynnig amddiffyniad rhag salwch difrifol, gorfod mynd i'r ysbyty a marwolaeth.

Gall heintiau brech M a gonorea effeithio ar ieuchyd unigolyn gyda salwch difrifol yn digwydd i rai unigolion. Gall gonorea achosi morbidrwydd sylweddol ac mae'n parhau i fod yn bryder ieuchyd cyhoeddus yn fyd-eang, ac mae asiantaethau ieuchyd cyhoeddus pedair gwlad y DU yn cynnwys brech M Cytras I yn eu rhestr o glefyd heintus â chanlyniadau pellgyrhaeddol (HCID).

Disgwylir i un o brif fanteision y rhaglenni brechu fod ar lefel gymunedol gyda gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion yn gyffredinol, gan helpu i atal achosion yn y dyfodol.

Dylai'r ddwy raglen dargedu GBMSM yn bennaf sydd mewn mwy o berygl o gael eu heintio, er y dylid gwneud ymdrechion i sicrhau bod y brechlyn yn cael ei gynnig i'r rhai sy'n wynebu risg debyg, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fenywod trawsryweddol, pobl rywedd-amrywiol a gafodd eu pennu'n yn wrywod adeg eu geni, ac (ar gyfer gonorea) unrhyw bobl eraill, waeth beth fo'u rhywedd, a allai fod yn heterorywiol neu sy'n uniaethu fel arall ac sydd â marcwyr cyfatebol o risg uwch. Os yw'r rhaglenni brechu yn cael eu rhoi ar waith, byddai pobl sy'n gymwys yng Nghymru yn cael yr un amddiffyniad ag yng ngwledydd eraill y DU.

Bydd y rhaglenni brechu arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar fusnes a'r cyhoedd, drwy helpu i atal achosion yn y dyfodol ac amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â haint. Efallai y bydd angen i unigolion sy'n dal y naill haint neu'r llall gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith o ganlyniad, gydag amser adfer hirach yn angenrheidiol ar gyfer achosion difrifol. Ochr yn ochr â'r manteision ieuchyd i unigolion, gall y rhaglenni brechu fod o fudd i fusnesau drwy gyfyngu ar effaith economaidd colledion cynhyrchiant ac absenoliaeth.

Mae risg y bydd y rhaglenni yn cael effaith negyddol ar allu SHS, gan effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau arferol eraill, ond gyda darparu cyllid ychwanegol, disgwylir i'r effaith hon fod yn fach iawn. Mae cynhyrchu'r holl lenyddiaeth a chanllawiau angenrheidiol am frechu o safbwynt lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn her, yn ogystal â sefydlu'r systemau digidol angenrheidiol i gofnodi cyfraddau brechu, ond os cytunir ar y polisi, bydd cynlluniau yn cael eu llunio i sicrhau bod yr heriau hyn yn cael eu goresgyn. Mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Gofal lechyd Digidol Cymru y profiad a'r gallu i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ar ôl gwneud hyn o'r blaen ar raglenni brechu eraill a sefydlwyd.

### **8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Rhodddwyd ystyriaeth ddyladwy i'r ffordd y mae'r polisiâu brechu yn ymwneud â'r nodau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r pum ffordd o weithio. Mae poblogaeth sydd â lefelau brechu uchel yn iachach, yn gorfforol ac yn feddyliol, sy'n cyfrannu at nod Cymru iachach, ac mae pobl iachach yn golygu gweithlu mwy cynhyrchiol a chynhyrchiant uwch sydd wrth reswm yn arwain at Gymru fwy ffyniannus. Mae brechu yn allweddol i ddiogelwch iechyd byd-eang, mewn byd cydgyssylltiedig lle gall brigiad o achosion o glefyd ledaenu'n gyflym iawn. Gall gwlad sydd â lefelau brechu uchel ymateb yn well i frigiadau o achosion ac argyfyngau iechyd cyhoeddus, sy'n arwain at Gymru sy'n fwy cyfrifol ar lefel byd-eang.

#### **O ran y pum ffordd o weithio, mae'r polisi hwn yn ystyried:**

Mae rhaglenni brechu yn yr hirdymor yn darparu rhywfaint o symudedd cymdeithasol, gan nad yw tlodi a'r salwch a'r marwolaethau cysylltiedig yn sgil clefydau heintus bellach yn benderfynyddion cyfleoedd bywyd unigolyn. Brechu yw un o'r camau pwysicaf y gallwn eu cymryd ar gyfer ein hiechyd ein hunain, a dyma'r cam ataliol pwysicaf y gall GIG Cymru ei gynnig i bobl yng Nghymru. Bydd y rhaglenni brechu hyn yn ystyried sut i integreiddio â gwaith ehangach gwasanaethau iechyd rhywiol. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio'n agos â Rhaglen Frechu Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn lleihau unrhyw darfu ar ddarpariaeth y GIG ac iechyd rhywiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â'r Rhaglen Frechu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a bydd yn parhau i wneud hynny wrth gynllunio'r gwaith o weithredu'r rhaglenni brechu a monitro eu llwyddiant, drwy ymgysylltu'n rheolaidd. Cafodd rhanddeiliaid perthnasol eu cynnwys yn y broses o lywio'r asesiad effaith integredig hwn a byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r polisiâu ddatblygu. Yn ddarostyngedig i gytundeb y Gweinidogion, bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio â chydweithwyr clinigol a gweithredol er mwyn llywio penderfyniadau ar sut y byddai'r rhaglenni brechu ar gyfer brech M a gonorea yn cael eu cyflwyno yn 2025.

Er mwyn gwneud y gorau o'r manteision a ddisgrifir, rhaid i frechu fod yn hygyrch i bawb sy'n gymwys.

Er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl o grwpiau anodd eu cyrraedd yn cael eu brechu o ran y ddwy raglen, bydd GIG Cymru, drwy Wasanaethau Iechyd Rhywiol (SHS), yn gweithredu egwyddorion y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol,

a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2022<sup>2</sup>, sy'n ceisio trawsnewid a gwella'r ddarpariaeth o raglenni brechu ac imiwneiddio ar gyfer pobl Cymru, gyda phwyslais ar gael mwy o bobl i fanteisio ar frechlynnau a sicrhau bod tegwch wrth wraidd y rhaglen.

Caiff y brechlynnau eu cynnig ar sail manteisio ar y cyfle drwy SHS sydd â'r profiad o asesu ac adnabod y rhai sydd mewn mwy o berygl o gael eu heintio â heintiau bacterol a drosglwyddir yn rhywiol (STIs).

Bydd disgwyl i SHS gynnig cymorth wedi'i deilwra i alluogi ac annog grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol i fanteisio ar y cynnig i gael eu brechu. Er mwyn gwneud hyn, rhaid cymryd camau rhagweithiol i sicrhau:

- Bod mynediad cyfartal at frechu yn cael ei roi i'r rhai y bernir eu bod fwyaf mewn perygl
- Bod pawb yn cael yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniad gwybodus am frechu ar sail ffynonellau dibynadwy.

Dylai cyflwyno'r ddwy raglen frechu gael ei gefnogi gan ymgyrch gyfathrebu wedi'i theilwra sydd wedi'i hanelu at gyrraedd y gymuned GBMSM ac i'r rhai sydd â ffactorau risg cyfatebol, i hyrwyddo manteision brechu a mynd i'r afael â'r stigma cysylltiedig.

Mae opsiynau defnyddio hygyrch sy'n canolbwyntio ar y person yn hanfodol i sicrhau'r cyfraddau brechu uchaf posibl. Cynigir y bydd y ddwy raglen frechu yn cael eu cyflwyno drwy SHS, gyda lleiafrif o'r rhai sy'n gymwys yn cael eu nodi a'u brechu drwy lwybrau eraill, megis meddygfeydd. Mae dod â brechlynnau mor agos â phosibl at unigolion yn gwella'r cyfraddau brechu – mae gan SHS glinigau ledled Cymru, gydag unigolion cymwys yn gallu cael mynediad at frechiadau mewn clinigau y tu allan i'w bwrdd iechyd lleol.

#### **8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r gwaith fynd rhagddo, ac wedi iddo gael ei gwblhau?**

Bydd y broses o weithredu'r rhaglenni brechu brech M a gonorea yn cael ei monitro gan Raglen Frechu Cymru a fydd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Goruchwyllo Brechu fel rhan o'r trefniadau llywodraethiant cenedlaethol.

Mae bwrdd prosiect pedair cenedl wedi'i sefydlu i drafod y gwaith o weithredu'r rhaglen ac i alinio'r ffordd y caiff ei chyflwyno er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU a Gogledd Iwerddon. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau i fonitro'r cynnydd ynghyd â chyfarfodydd ar lefel swyddogol. Bydd adroddiadau gwyliadwriaeth rheolaidd, chwarterol yn cael eu sefydlu gan y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy (VPDP), gan ddefnyddio systemau iechyd rhywiol presennol. Bydd yr adroddiadau

---

<sup>2</sup> <https://www.llyw.cymru/fframwaith-imiwneiddio-cenedlaethol-cymru>

gwyliadwriaeth hyn yn helpu i lywio byrddau iechyd a chynlluniau clinigau iechyd rhywiol i hyrwyddo tegwch a sicrhau bod y carfanau cymwys yn cael eu targedu i sicrhau'r cyfraddau brechu uchaf posibl.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol y tu hwnt i'r cam gweithredu i fonitro cynnydd a gwerthuso'r cam cyflwyno cychwynnol. Bydd swyddogion yn parhau i fynychu cyfarfodydd brechu JCVI, fel arsylwyr, i fonitro unrhyw drafodaeth yn y dyfodol ar frech M a gonorea ac unrhyw newidiadau y gallent eu cynghori.